CARTREFI CONWY
creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
creating communities to be proud of

# SWYDD-DDISGRIFIAD

## 1. MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Rheolwr Cyflawni Asedau |
| **YN ATEBOL I'R** | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Asedau a Diogelwch Tenantiaid |
| **STAFF ATEBOL** | Timau Cyflawni Cyfalaf a Chyllid |
| **TÎM** | Rheoli Asedau |
| **LLEOLIAD** | Morfa Gele / Adref |
| **MANYLION CYFLOG** | £39,130 yf |

## 2. PWRPAS

Mae'r rôl yn gyfrifol am gynorthwyo gyda gweithredu'r Strategaeth Rheoli Asedau gan gynnwys cyflawni'r ffrydiau gwaith cyfalaf a refeniw a gwaith cysylltiedig â chydymffurfedd. Gan gydweithio gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol Asedau a Diogelwch Tenantiaid, mae gofyn i'r rôl reoli amrywiaeth eang o ffrydiau gwaith gwasanaethau eiddo i sicrhau safonau rhagorol o foddhad tenantiaid a chydymffurfedd gyda Safon Ansawdd Tai Cymru.

## 3. DIMENSIYNAU Cwmpas ac Amrywiaeth

Cyflawni yn weithredol gynllun buddsoddi cyfalaf blwyddyn tua £10m ar gyfer Rhaglenni Gwella Allanol a Mewnol.

Rheoli contractau a monitro contractau gwasanaeth blynyddol.

Rheoli rhaglen Arolwg Cyflwr Stoc blynyddol gan gynnwys gwaith cwmpasu cyn contract a phrosiectau gwerthuso dewisiadau ar gyfer rheoli asedau yn weithredol.

Cyflawni yn weithredol y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Rheoli prosiectau achos yn ymwneud â honiadau o dai mewn cyflwr gwael, tua 10 y flwyddyn.

Rheoli cwynion a datrys anghydfod

## 4. PRIF GYFRIFOLDEBAU

Caffael a rheoli cyflawni contract cynllun buddsoddi 5 mlynedd Cartrefi Conwy a chontractau gwella cyfalaf, gan sicrhau fod rhaglenni yn cael eu cyflawni yn unol â Strategaeth Rheoli Asedau Cartrefi Conwy, tra'n cael gwerth am arian a lefelau uchel o foddhad tenantiaid.

Rheoli contract gwasanaethau refeniw Cartrefi Conwy gan gynnwys, ond nid wedi ei gyfyngu i, cydymffurfedd landlord a chontractau cynnal a chadw tiroedd.

Rheoli cwynion a datrys anghydfod ar gyfer ffrydiau gwaith gwasanaethau eiddo.

Rheoli'r rhaglenni arolygu stoc 5 mlynedd a fydd yn hysbysu cynlluniau buddsoddi byr dymor a hirdymor a chynnal ymagwedd rheoli asedau gweithredol yn unol â'r Strategaeth Asedau ac amcanion busnes.

Gweithredu fel arweinydd cleient ar gyfer yr holl brif waith refeniw, gan gynnwys rheoli a chydlynu honiadau o dai mewn cyflwr gwael a gwaith adleoli tenantiaid.

Darparu system o archwiliadau rheolaidd o sicrwydd ansawdd drwy'r holl ffrydiau gwaith i wella gwasanaeth i gwsmeriaid a gyrru safonau uwch o ran perfformiad.

Gweithio'n agos gyda'r Partner Eiddo a Busnes i ddarparu adroddiadau diweddaru DPA rheolaidd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Asedau a Diogelwch Tenantiaid ar weithgaredd y prif ffrwd waith.

Bod yn ymwybodol, deall a gallu gweithredu egwyddorion rheoli asedau a phrosesau gwasanaethau eiddo a meysydd cysylltiedig – gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, newidiadau i reoliadau adeiladu a thueddiadau sy'n datblygu, dulliau adeiladu a deddfwriaeth gysylltiedig, DPA a safonau Ynni/Cynaliadwyedd ayb.

Cefnogi'r tîm asedau i sicrhau y cydymffurfir â pholisi iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal a pholisïau gwasanaeth i gwsmeriaid y gymdeithas drwy'r holl weithgareddau eiddo ac y gwneir yr holl waith yn unol â'r codau ymarfer a deddfwriaeth berthnasol.

## 5. CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL

Cefnogi Cartrefi Conwy yn weithredol i gyflawni ei amcanion i ddarparu gwasanaeth rhagorol ac arloesol sydd wir yn canolbwyntio ar y cwsmer.

Cyfrannu at weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad tenantiaid yn ôl y gofyn.

Fel cynrychiolydd Cartrefi Conwy, hybu a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.

Hyrwyddo gwerthoedd Cartrefi Conwy yn gadarnhaol a herio ffyrdd traddodiadol o weithio ac ymddygiad neu sylwadau anffafriol mewn modd adeiladol.

Sicrhau y gofynnir am adborth i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a datblygu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o weithio.

Sicrhau cydymffurfedd â Rheolau Sefydlog Cartrefi Conwy, polisïau a gweithdrefnau, safonau uniondeb sy'n ymwneud â statws elusennol y sefydliad a Rheoliad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu, adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau, yn benodol:

- Mentrau iechyd, diogelwch a lles
- Egwyddorion y gymdeithas ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cynlluniau rheoli risg
- Arferion rheoli perfformiad

Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol drwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithiol a chadw data yn ddiogel ac yn y modd cywir.

Gweithio ar y cyd mewn gweithgorau traws swyddogaethol yn ôl yr angen.

## 6. CYD-DESTUN GWAITH (yr amgylchedd, y math o gyfarpar)

Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn swyddfa ond bydd angen teithio'n lleol yn rheolaidd ac yn aml. Bydd angen i ddeiliad y swydd ymgymryd ag ymweliadau safle hefyd, a gallai rhai o'r rhain gael eu cynnal y tu allan i oriau gwaith arferol (amlder a ddisgwylir?)

Mae defnyddio technoleg a systemau TGCh yn rheolaidd yn un o ofynion y swydd.

## 7. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU (terfynau a rhyddid)

Mae disgwyl i ddeiliad y swydd weithredu yn ymreolus oddi mewn i bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol a gytunwyd.

Dyma enghreifftiau o'r penderfyniadau y gall deiliad y swydd eu gwneud: Pob penderfyniad technegol sy'n ymwneud â manylebau ac ati

- Awdurdodi gwaith o fewn cytundebau a chyllidebau y cytunwyd arnynt

Dyma enghreifftiau o benderfyniadau sy'n cael eu cyfeirio:

- Monitro ariannol – unrhyw eitem sy'n ymwneud â gwariant
- Newid manylebau technegol y tu allan i'r dogfennau manyleb mewnol

Cytunir ar amcanion perfformiad gyda'r rheolwr atebol ac mae perfformiad yn destun adolygiad dan y broses Adolygiadau Datblygu Perfformiad y cytunwyd arni.

## 8. CYFATHREBU (y prif gyfathrebu sy'n digwydd, amlder, pwrpas a dull)

| | |
|---|---|
| **MEWNOL** | Adroddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig - Rheolwr Gyfarwyddwr Cartrefi Conwy, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Asedau a Diogelwch Tenantiaid, Rheolwr Darparu Cydymffurfiaeth Eiddo.<br><br>Timau mewnol eraill yn ôl y gofyn, er mwyn cyfleu gwybodaeth am weithgareddau, camau gweithredu neu broblemau o fewn y cymunedau. |
| **ALLANOL** | Bydd gofyn i ddeiliad y swydd fynd i gyfarfodydd a gynhelir gan asiantaethau a phartneriaid allanol, a chysylltu â chyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn rheolaidd.<br><br>Cyfarfodydd, Llafar – staff Awdurdod Lleol, Cyfreithwyr, Ymgynghorwyr, Contractwyr. Contractwyr, ymgynghorwyr a datblygwyr yn wythnosol er mwyn monitro cynnydd, rhoi cyfarwyddiadau a datrys problemau ac ati.<br><br>Darparwyr grantiau er mwyn gwneud ceisiadau a derbyn grantiau perthnasol at ddibenion arbed ynni / cynaliadwyedd. |

## 9. MEYSYDD CYMHLETH (beth sy'n ymestyn rhywun fwyaf)

Modelu cynllunio buddsoddiadau i sicrhau bod y gwaith arfaethedig o fewn terfynau'r cynllun busnes.
Sicrhau bod cynlluniau yn aros y gyllideb petai newid mewn deddfwriaeth neu ofynion cleientiaid.
Cysylltu â chynrychiolwyr cyfreithiol i reoli achosion o ddiffyg atgyweirio.

## 10. CYTUNDEB

| | |
|---|---|
| **Llofnod Deiliad y Swydd:** | **Dyddiad:** |
| **Llofnod y Rheolwr Atebol:** | **Dyddiad:** |

# Manylion am yr Unigolyn
# Rheolwr Cyflawni Asedau

| CYMWYSTERAU ACADEMAIDD / PROFFESIYNOL | Hanfodol / Dymunol | Dull asesu |
|---|---|---|
| Gradd (neu gyfwerth) mewn pwnc sy'n ymwneud ag Eiddo neu brofiad perthnasol | Dymunol | Ffurflen gais |
| Cymhwyster proffesiynol perthnasol neu'n gweithio tuag ato e.e. RICS | Dymunol Iawn | Ffurflen gais |
| **GWYBODAETH A PHROFIAD** | | |
| Profiad o weithio o fewn y Diwydiant Tai | Dymunol Iawn | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o theori ac ymarfer adeiladu, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd sy'n ymwneud ag adeiladu | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad mewn cyflawni rhaglenni gwaith cyfalaf | Dymunol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth ymarferol am ddeddfwriaethau a safonau perthnasol (e.e. Rheoliadau Adeiladu, Iechyd a Diogelwch, Safon Ansawdd Tai Cymru) | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth ymarferol am gydymffurfedd diogelwch landlord (nwy, asbestos, legionella ayb) | Dymunol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion Rheoli Asedau Gweithredol | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth am feini prawf archwilio a phatholeg adeiladu yn ymwneud ag arolygon o gyflwr y stoc | Dymunol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **SGILIAU** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag unigolion ar bob lefel | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad o ysgrifennu adroddiadau a rhoi cyflwyniadau i uwch reolwyr | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gallu gweithio ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Microsoft Office; Word, Excel, Outlook, Lefel defnyddiwr sylfaenol | Hanfodol | Ffurflen gais |
| Gallu gyrru* Trwydded Yrru Lawn i yrru yn y DU a'r defnydd o gerbyd ar gyfer gwaith | Hanfodol | Ffurflen gais / Tystysgrif |
| Sgiliau rhyngbersonol, trafod a dylanwadu cryf | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Sgiliau Iaith Gymraeg | Dymunol Iawn | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| **CYMWYSEDDAU CARTREFI** | | |
| Bod yn arloesol | Hanfodol | Cyfweliad |
| Ymrwymiad i ansawdd | Hanfodol | Cyfweliad |
| Gwneud y peth iawn | Hanfodol | Cyfweliad |

**Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau.**

* **Lle bo anabledd yn atal hyn, bydd yn cael ei adolygu gyda'r ymgeisydd yn ystod y cam cyfweliad i weld a oes unrhyw addasiad rhesymol y gellir ei wneud ar gyfer y gofyniad hwn.**